Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol

## Rhagfyr 2013

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Ysgolion a gweithio mewn partneriaeth** | **9** |
| **Awdurdodau lleol a gweithio mewn partneriaeth** | **23** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **31** |
| **Atodiad 2: Data** | **32** |
| **Cyfeiriadau** | **37** |
| **Geirfa** | **38** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **39** |

## Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres a luniwyd i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyrau cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r adroddiadau hyn yn edrych ar y modd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn mynd i'r afael â thlodi ac anfantais i wella cyflawniad a lles dysgwyr.

Roedd yr adroddiad cyntaf yn 2011 ynghylch ysgolion bro. Yn yr ail adroddiad yn 2012, defnyddiwyd cyfres o astudiaethau achos i egluro'r hyn a wna ysgolion da sy'n wynebu amgylchiadau heriol i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r adroddiad diweddaraf hwn yn edrych yn agosach ar y gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau a gwasanaethau amrywiol. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer orau.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i rieni a staff mewn gwasanaethau ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1.

## Cefndir

Dengys y data diweddaraf fod y bwlch rhwng perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael wedi lleihau rhywfaint. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion o hyd yn erbyn yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol (gweler Atodiad 2). Mae'r cysylltiad rhwng anfantais a thangyflawniad addysgol yn parhau i fod yn gryf.

**Mentrau diweddar Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau polisi i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Yn Chwefror 2011, cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant Cymru[1] gan Lywodraeth Cymru, a nododd y blaenoriaethau canlynol:

- mae ffocws ar y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddatblygiad plant;
- yr angen i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd yn ogystal ag anghenion y plentyn;
- bod meithrin hydwythedd yn hanfodol gan fod atal yn fwy effeithiol na gwella;
- y dylai ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi;
- codi dyheadau a chynnal ysgol o gyfle ar gyfer pobl ifanc; a
- chydweithio â phartneriaethau lleol.

[1] Dogfen wybodaeth Rhif: 095/2011

Yn 2012, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys mwy o gamau i helpu i gyflwyno Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Ym Mawrth 2013, cyhoeddwyd diweddariad ar ddangosyddion gwaelodlin ar gyfer Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Dangosodd hyn ddarlun cymysg o welliant rhwng 2005 a 2011 ar gyfer y pum dangosydd sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

Lansiwyd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn 2010. Rhaglen sy'n hyrwyddo datblygiad systemau a chymorth amlasiantaethol gan awdurdodau lleol yw Teuluoedd yn Gyntaf, gyda phwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhan o gontinwwm o ddarpariaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cynnwys:

- Dechrau'n Deg, ar gyfer plant tair oed ac yn iau yn yr ardaloedd lleol mwyaf difreintiedig;
- Cymunedau yn Gyntaf, sy'n targedu rhagolygon y cymunedau mwyaf difreintiedig; a
- Thimau Cymorth Teuluol Integredig, sy'n darparu dull cyfannol i deuluoedd ag anghenion lefel uchel.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £42 miliwn yn ystod 2012 -2013 ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a disgwylir y bydd y ffigur yn cynyddu i £43.4 miliwn yn 2013-2014.

Yn 2011, cyflwynwyd y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd y grant i ddod â nifer o wahanol grantiau ynghyd sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Ei nod trosfwaol yw darparu cymorth ffocysedig ar gyfer tair blaenoriaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Yn 2012, cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion gan Lywodraeth Cymru i gefnogi camau gweithredu i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Bwriad Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yw y dylent weithio ochr yn ochr â'i gilydd. Y dyraniad grant yn 2012-2013 ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yw £32.6 miliwn ynghyd â £32.4 miliwn ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion. Grant treigl yw'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, a fydd yn parhau y tu hwnt i 2015, ac mae'r cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion am dair blynedd i ddechrau.

Ym Mai 2012, lluniwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r arweiniad yn datgan, "Dylai'r cyllid grant gefnogi ysgolion i godi safonau ar draws yr ysgol gyfan a lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad trwy:

- gefnogi datblygiad dysgwyr sydd dan anfantais trwy gynnwys a chyflwyno'r cwricwlwm, gan roi ffocws penodol ar lythrennedd a rhifedd;
- rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain dysgwyr ar gyfer cyrhaeddiad a lles i helpu sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd, waeth beth yw eu cefndir;
- sefydlu neu gryfhau cymunedau dysgu proffesiynol sy'n galluogi'r ysgol i ymgysylltu ag asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill i gael dealltwriaeth

gliriach o anghenion pobl ifanc a sut i fynd i'r afael â nhw;

- cefnogi a gwella lefelau ymgysylltiad teuluol a gallu rhieni i gefnogi dysgu eu plant;
- defnyddio adnoddau cymunedol yn fwy effeithiol i gefnogi anghenion penodol dysgwyr mewn cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir llawer o anfantais economaidd gymdeithasol lle mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r ysgolion yn cael anogaeth gref i weithio gyda'i gilydd yn agos i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael; neu
- gryfhau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo dysgu mwy effeithiol yn y cartref."[2]

Yn fwy diweddar, yn Chwefror 2013, lansiwyd Arian Cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf, a'i nod oedd meithrin cysylltiadau agosach rhwng ysgolion a'u cymunedau yn yr ardaloedd sydd â'r amddifadedd uchaf ledled Cymru.

**Adroddiadau diweddar Estyn ar dlodi**

Yn 'Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill' (Estyn 2011), fe wnaethom ganfod mewn rhai awdurdodau lleol fod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i strategaethau i fynd i'r afael ag anfantais a'u bod yn cael eu harfarnu gyda'r holl bartneriaid yn unol â thargedau ar y cyd i wella safonau a lles dysgwyr dan anfantais. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn dangos ymdrech strategol wedi'i mynegi'n glir i fynd i'r afael ag effeithiau anfantais.

Yn yr enghreifftiau gorau prin, mae gweithwyr o wahanol asiantaethau a gwasanaethau yn cydweithio'n dda i nodi dysgwyr dan anfantais sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae ysgolion yn elwa fwyaf lle mae'r awdurdod lleol yn cydlynu gwaith gwahanol asiantaethau i helpu ysgolion i nodi a thargedu eu dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r asiantaethau amrywiol dan sylw yn cydgyfrannu eu hadnoddau a'u gwybodaeth i nodi'r dysgwyr hyn, gan roi ystyriaeth dda i ystod eu hanghenion.

Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae'r gwahanol wasanaethau yn yr awdurdod lleol yn defnyddio gwahanol systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr sydd dan anfantais. Yn aml, nid yw awdurdodau lleol yn rhannu'r wybodaeth hon yn ddigon da ar draws gwasanaethau neu gydag ysgolion i helpu ysgolion â'u holrhain a'u monitro eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu medrau arweinyddiaeth penaethiaid ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol mewn ysgolion mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae llawer o awdurdodau lleol yn trefnu cyfarfodydd penaethiaid, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi sy'n archwilio agweddau ar anfantais ac addysg fro. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth arweinwyr ysgol o'r angen i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Fodd bynnag, ychydig iawn o arweinwyr ysgol sydd wedi cael hyfforddiant yn benodol ar gyfer datblygu medrau gweithio mewn partneriaeth neu ymgysylltu â'r gymuned.

[2] Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013-2015, dogfen arweiniad Llywodraeth Cymru 101/2013 Ebrill 2013

Yn 2012, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad arfer dda o'r enw 'Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion', a ddisgrifiodd nodweddion arfer dda ac yn eu tywys trwy'r astudiaethau achos gan ysgolion mewn ardaloedd lle ceir llawer o anfantais economaidd gymdeithasol. Nododd yr adroddiad 10 o strategaethau y mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn eu defnyddio i oresgyn y ffactorau sy'n rhoi dysgwyr dan anfantais. Mae'r ysgolion hyn:

1 yn defnyddio dull strategol ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais – maent yn defnyddio dull strwythuredig, cydlynus a ffocysedig o wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais;
2 yn defnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr sydd dan anfantais – maent yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn ei defnyddio i ddadansoddi cynnydd grwpiau o ddysgwyr;
3 yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr sydd dan anfantais;
4 yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr sydd dan anfantais – maent yn deall y berthynas rhwng lles a safonau ac yn aml yn ailstrwythuro eu system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr sydd dan anfantais;
5 gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr sydd dan anfantais – mae ganddynt gosbau addas, ond yn gweld bod systemau gwobrwyo yn gweithio'n arbennig o dda;
6 yn teilwra'r cwricwlwm yn unol ag anghenion dysgwyr sydd dan anfantais – mae ganddynt systemau mentora sy'n arwain dysgwyr trwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu eu hunain;
7 yn ymdrechu'n dda i ddarparu profiadau cyfoethog y mae dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maent yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau, gweithgareddau a theithiau diwylliannol ac addysgol;
8 yn gwrando ar ddysgwyr sydd dan anfantais ac yn rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol – maent yn casglu safbwyntiau dysgwyr am addysgu a dysgu, yn rhoi rôl allweddol i ddysgwyr mewn datblygu'r ysgol, ac yn cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol i wella safonau;
9 yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr sydd dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb i helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu; ac
10 yn datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion dysgwyr sydd dan anfantais – mae ganddynt ddiwylliant o rannu arfer orau, maent yn rhoi cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, ac mae ganddynt dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais.

Yn 'HMS Statudol mewn ysgolion' (Mehefin 2013), dywedom fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn ystod eu diwrnodau HMS. Mae bron pob ysgol yn bwriadu defnyddio o leiaf un diwrnod HMS i ganolbwyntio ar lythrennedd, ac mae mwyafrif o ysgolion wedi nodi rhifedd yn eu cynlluniau HMS. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sydd â chynlluniau i ganolbwyntio ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn 2012-2013.

## Prif ganfyddiadau

1 Er bod llawer o ysgolion wedi canolbwyntio mwy ar bwysigrwydd gwella safonau a lles disgyblion sydd dan anfantais yn ddiweddar, nid yw pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i fynd i'r afael â thlodi o hyd. Er enghraifft, lleiafrif o ysgolion yn unig oedd â chynlluniau penodol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn 2012-2013.

2 Mae'r nifer fach o ysgolion sy'n llwyddo i godi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr unigol. Pan fydd gan ddysgwyr anghenion cymhleth na all yr ysgol eu bodloni ar ei phen ei hun, mae'r ysgolion hyn yn gweithio gydag asiantaethau i ddarparu gwasanaethau eang yn gysylltiedig â'r teulu i fodloni'r anghenion hynny neu gallent weithio gyda gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion iechyd a lles penodol. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn cynnal clinigau a chanolfannau galw i mewn ar gyfer iechyd, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol ar safle'r ysgol.

3 Mae rhai ysgolion sydd â disgyblion newydd sydd dan anfantais, fel y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ymgysylltu â theuluoedd trwy greu amgylchedd croesawgar. Mae'r ysgolion hyn yn sefydlu ystafelloedd teuluol neu ystafelloedd anogaeth lle gall plant ddysgu gyda'u teuluoedd am gyfnod. Gall gweithio yn yr ystafelloedd hyn ddarparu'r cymorth cymdeithasol ac emosiynol sydd ei angen ar blant a'u teuluoedd wrth ymgynefino mewn ysgol neu gymuned newydd.

4 Mae disgyblion mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn nulliau 'Tîm o amgylch y teulu'[3] yn elwa ar weithio amlasiantaethol. Mae'r gronfa o fedrau o fewn y tîm yn golygu y gellir mynd i'r afael â phryderon iechyd, domestig a lles cymdeithasol dysgwyr a'u teuluoedd. Mae llawer o ysgolion yn nodi y cafwyd deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr sydd wedi cael cymorth trwy'r fenter hon. Nodwyd diffygion gan leiafrif o ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw wrth roi'r model hwn ar waith, gan gynnwys methu sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd i drafod cynnydd a chytuno ar strategaethau.

5 Mae'n her i ysgolion gydlynu a rheoli gwaith sawl partner allanol. Mae'n arwyddocaol fod y nifer fach o ysgolion sy'n codi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais yn pennu uwch aelod o staff i gydlynu gwaith gyda phartneriaid. Mae'r ysgolion hyn yn gwybod am, ac yn deall, y cymorth a gaiff y disgybl gan bartner allanol ac mae staff yn monitro cynnydd yn ofalus.

6 Mae rhai ysgolion yn cydgyfrannu eu hadnoddau mewn strategaethau a hyfforddiant ar y cyd i fynd i'r afael ag anfantais, ond prin yw'r 'cymunedau dysgu proffesiynol' o athrawon o glwstwr o ysgolion sy'n canolbwyntio ar dlodi yn uniongyrchol. Mae rhai ysgolion wedi cynllunio dulliau o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais ar draws sectorau trwy eu gwaith clwstwr. Mae hyn wedi helpu'r disgyblion i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd trwy eu cynorthwyo, er enghraifft yn eu dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac mewn llythrennedd.

[3] Tîm amlddisgyblaethol o ymarferwyr sydd wedi'i sefydlu ar sail achos wrth achos i gynorthwyo plentyn, unigolyn ifanc neu deulu yw Tîm o Amgylch y Teulu (TAF).

7 Mewn rhai clystyrau, mae cydgyfrannu adnoddau, fel cyllid o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, wedi helpu athrawon o ysgolion uwchradd a chynradd i ddeall materion ei gilydd. Dywedodd rhai penaethiaid ysgolion uwchradd yn ein harolwg fod y trefniant hwn wedi codi eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar.

8 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith asiantaethau allanol yn erbyn mesurau clir o berfformiad dysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio data i arfarnu effaith mentrau newydd a rhannu gwybodaeth am berfformiad gyda phartneriaid i helpu i uno dulliau'r ysgol ag ymyriadau eraill.

9 Yn sgil cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ehangwyd ystod y strategaethau i godi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, defnyddir y grant i wella cyflawniad yr holl ddysgwyr is eu gallu ac nid yw wedi'i gyfeirio'n benodol tuag at ddysgwyr sydd dan anfantais, er y bydd y gwariant yn parhau i fod o fudd iddynt os yw eu cyflawniad yn isel. Yn yr ysgolion hyn, mae diffygion yn y modd y caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei wario sy'n debyg i'r rhai a nodwyd gan Estyn mewn perthynas â chyllid Rhagori yn y gorffennol[4][5][6].

10 Er bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith tlodi, ychydig ohonynt yn unig sydd wedi gwella safonau a lles dysgwyr sydd dan anfantais yn sylweddol. Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol sy'n codi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais yn defnyddio dull ataliol o fynd i'r afael ag effaith tlodi. Maent yn dechrau gyda dadansoddiad trylwyr o anghenion i nodi effaith amddifadedd ar deuluoedd lleol. Mae amlinellu anghenion teuluoedd sydd dan anfantais yn golygu y gall yr awdurdod lleol rannu gwybodaeth gydag ysgolion a phartneriaid a darparu gwaelodlin i fesur effaith mentrau newydd ohono.

11 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd dan anfantais gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill. Mae gwahanol wasanaethau yn casglu eu rhestrau eu hunain o blant a phobl ifanc sydd dan anfantais. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynllunio cronfa ddata unigol a chynhwysfawr o wybodaeth am ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr. Byddai cronfa ddata felly yn galluogi staff i gael darlun llawnach o anghenion dysgwyr unigol a gellid ei defnyddio i ategu dull cyffredin.

12 Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn llwyddiannus wrth ddod â chynlluniau gwasanaeth ar gyfer addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Maent wedi llunio cynllun integredig i gydlynu gwasanaethau ac osgoi dyblygu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw gwahanol wasanaethau mewn awdurdod lleol neu gonsortia yn alinio eu cynlluniau nac yn defnyddio dangosyddion perfformiad cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd mesur cynnydd ar y cyd.

---

[4] Effaith Rhagori 2008-2009: arfarniad o gyllid Rhagori ar godi lefelau perfformiad disgyblion sydd dan anfantais, Estyn, 2009
[5] Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010
[6] Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011

13 Mae gan leiafrif o awdurdodau lleol dargedau a dangosyddion perfformiad penodol sy'n gysylltiedig â chau'r bwlch mewn deilliannau rhwng dysgwyr breintiedig a dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o awdurdodau lleol amcanion penodol na thargedau mesuradwy. Nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu yn ddigon da i herio ysgolion i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais.

14 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn darparu rhywfaint o hyfforddiant i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais ac arweiniad arall ar sut i ddefnyddio cyllid grant. Fodd bynnag, nifer fach o awdurdodau lleol yn unig sy'n rhoi cyngor da i ysgolion ynglŷn â sut i ddefnyddio eu harian Grant Amddifadedd Disgyblion. Nid oes digon o gyfleoedd hyfforddi i arweinwyr ysgol ddysgu am ddulliau strategol o fynd i'r afael ag effaith tlodi, gan gynnwys sut i gynllunio ac arfarnu gwahanol ddulliau a pha mor dda y maent yn gweithio.

## Argymhellion

**Er mwyn parhau i wella perfformiad dysgwyr sydd dan anfantais, dylai ysgolion:**

A1 fabwysiadu systemau clir ar gyfer gweithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais, er enghraifft dull y 'Tîm o amgylch y teulu';

A2 gweithio gydag asiantaethau eraill i ennyn diddordeb teuluoedd sydd dan anfantais yn fwy ym mywyd yr ysgol;

A3 gweithio'n agosach gydag ysgolion partner i ddatblygu dull cyffredin o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;

A4 pennu uwch aelod o staff i gydlynu gwaith gyda gwasanaethau ac asiantaethau allanol;

A5 gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais;

A6 defnyddio systemau i olrhain cynnydd disgyblion er mwyn arfarnu mentrau sy'n ceisio gwella lles a safonau; a

A7 defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu anghenion disgyblion sydd dan anfantais yn benodol, beth bynnag fo'u gallu.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A8 weithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol i amlinellu anghenion penodol disgyblion sydd dan anfantais a'u teuluoedd a rhannu'r wybodaeth hon gydag ysgolion ac asiantaethau eraill ar sail protocol cytûn;

A9 defnyddio dull ataliol o fynd i'r afael â thlodi a defnyddio dulliau 'Tîm o amgylch y teulu' wrth gydlynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd dan anfantais;

A10 gwneud yn siŵr bod cynlluniau strategol i fynd i'r afael â thlodi yn cael eu halinio i gynnwys gwasanaethau mewnol a phartneriaid allanol a'u bod yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy;

A11 darparu hyfforddiant a chymorth i ddatblygu medrau arweinwyr ysgol i reoli gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thlodi; a

A12 darparu neu drefnu cyngor gwell i ysgolion ar ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael ag effaith tlodi.

## Ysgolion a gweithio mewn partneriaeth

15 Mae gan yr ysgolion prin sy'n llwyddiannus wrth wella deilliannau ar gyfer eu dysgwyr sydd dan anfantais gynllun eglur i fynd i'r afael â thlodi, gyda thargedau mesuradwy a chynigion gweithredol manwl. Maent yn ymdrin yn systematig â'r her, gan gynnwys yn eu cynllunio strategol y ffyrdd y byddant yn gweithio gyda rhieni a gyda gwasanaethau ac asiantaethau allanol.

### Ennyn diddordeb rhieni

16 Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd heriol yn datblygu dulliau newydd o weithio gyda rhieni. Mae rhieni dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn tueddu i fod yn llai tebygol o gymryd rhan yn eu haddysg ac maent yn fwy tebygol o fod ag amgyffrediad negyddol o addysg. Mae llawer o ysgolion hefyd yn gweld nad yw rhieni bob amser yn fodlon ymgysylltu â gwasanaethau ac asiantaethau a allai eu helpu, felly maent yn gweithio'n galed i feithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda rhieni. Maent yn rhoi gwybod i rieni am ystod y gwasanaethau sydd ar gael ac yn creu amgylchedd croesawgar.

17 Er enghraifft, mae gan Ysgol Gynradd Treorci dudalen Facebook 'Ystafell Deuluol', lle gall rhieni gael arweiniad ar strategaethau i reoli ymddygiad a chefnogi bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod eang o asiantaethau sy'n cydweithio'n agos â'r ysgol yn defnyddio tudalen Facebook yr 'Ystafell Deuluol' i bostio gwybodaeth ar gyfer rhieni. Mae'r ysgol yn defnyddio'r safle i gynnal arolygon o farn rhieni a monitro nifer y rhieni sy'n defnyddio'r safle er mwyn iddynt allu arfarnu ei ddefnyddioldeb.

18 Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd heriol wedi canfod bod cynnal cyfarfodydd rhwng rhieni ac asiantaethau allanol, fel gwasanaethau cymdeithasol, yn yr ysgol yn helpu rhieni i deimlo'n fwy cysurus. Mae nifer o ysgolion llwyddiannus yn gweithio gyda phartneriaid allanol i ail-ddylunio'r ysgol yn 'ganolfan' ar gyfer ystod o wasanaethau. Trwy gynnal clinigau, canolfannau galw i mewn ac ystafelloedd cyfarfod ar safle'r ysgol, mae ysgolion ac asiantaethau fel gwasanaethau cwnsela, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), a'r gwasanaeth iechyd wedi canfod eu bod wedi gwella perthynas waith gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill. Mae hyn hefyd wedi golygu y gellir rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol.

19 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Gynradd Pillgwenlli yn darparu canolfan ddysgu ar gyfer teuluoedd sydd dan anfantais.

**Ystafell anogaeth i deuluoedd yn Ysgol Gynradd Pillgwenlli**

**Cyd-destun yr ysgol**

Ysgol fawr amlddiwylliannol yng Nghasnewydd yw Ysgol Gynradd Pillgwenlli. Mae'n gwasanaethu ward Pill yng nghanol y ddinas. Mae'r dalgylch, sy'n cynnwys dociau Casnewydd, yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru ac mae ganddo gyfradd uchel o ddiweithdra ac amrywiaeth ethnig. Mae poblogaeth o ddisgyblion dros dro. Mae'r ysgol yn ymfalchïo ar fod yn 'Ysgol Feithringar' ac mae'n cynnig dosbarth anogaeth yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fel ei gilydd 2.

**Strategaeth**

Er 2010, bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd Pillgwenlli nad ydynt yn siarad Saesneg ac yn newydd i'r DU a'i system addysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod anghenion penodol y dysgwyr hyn ac mae ganddi strategaeth i ennyn diddordeb eu teuluoedd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mewn partneriaeth â Cymorth i Leiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS), sefydlwyd ystafell anogaeth i deuluoedd yn yr ysgol i roi cymorth cymdeithasol ac emosiynol i'r teuluoedd hyn wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r gymuned leol a'r ysgol.

**Camau gweithredu**

Mae'r ystafell anogaeth i deuluoedd yn cynnig lle i blant fynd i allu dysgu mewn lleoliad meithringar a gall eu teulu (rhieni neu neiniau a theidiau) ymuno â nhw am ran o'r wythnos. Mae gan bob dysgwr ddosbarth sylfaen. Maent yn mynychu'r ystafell anogaeth i deuluoedd am 55% o'u hwythnos i ddechrau, gan ddysgu ochr yn ochr â'u teulu am 10% i 20% o'r wythnos a mynychu eu dosbarthiadau sylfaen am weddill yr wythnos gyda chymorth iaith gartref. Cyn gynted ag y mae dysgwyr wedi caffael medrau i'w cynorthwyo â'u dysgu a'u lles, maent yn trosglwyddo i'w dosbarth sylfaen amser llawn.

Mae dysgwyr yn dechrau eu diwrnod trwy gael brecwast, ac yn ystod y cyfnod hwn, maent yn defnyddio eu hiaith gartref yn ogystal â Saesneg ac yn cynllunio ar gyfer y diwrnod. Mae hyn yn rhoi cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw ofidiau am eu meysydd dysgu arfaethedig. Treulir gweddill y bore yn canolbwyntio ar gaffael y medrau llythrennedd a gwybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo'r plant wrth iddynt ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion yn eu dosbarth sylfaen. Unwaith neu ddwywaith yr wythnos, mae eu teuluoedd yn dod i ddysgu ochr yn ochr â nhw. Caiff rhieni gyfle hefyd i fynychu gweithdai dysgu teuluol eraill tra bydd eu plant yn eu dosbarthiadau sylfaen.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â rhai o'r teuluoedd sydd fwyaf 'anodd i'w cyrraedd' a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed fel hyn ac mae wedi meithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda nhw. Mae eu cyfranogiad ym mywyd yr ysgol wedi arwain at safonau gwell ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais ac mae wedi dysgu i'r dysgwyr hynny y medrau cymdeithasol ac emosiynol y mae angen iddynt eu hennill yn yr ysgol uwchradd. Mae agweddau dysgwyr at ddysgu yn datblygu'n gadarnhaol ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau gwaith cartref ac ymweliadau a theithiau ysgol.

Bu cynnydd mewn cyfraddau presenoldeb. Mae presenoldeb y dysgwyr hynny sy'n mynychu'r ystafell anogaeth i deuluoedd wedi codi o fod rhwng 47% ac 84% i fod rhwng 71% a 96%. Mae presenoldeb rhieni mewn sesiynau dysgu ar y cyd rhwng 94% a 100% ac mae'n fwy na 96% mewn ymgynghoriadau rhieni a gwasanaethau grwpiau blwyddyn.

Gyda chymorth staff yr ystafell anogaeth, mae pob teulu wedi cofrestru gyda meddygon a deintyddion. Caiff yr holl waith papur yn yr ysgol ei gwblhau mewn pryd, fel ffurflenni cais ysgolion uwchradd a ffurflenni caniatâd rhieni.

Ymhen pedwar mis, aeth pedwar dysgwr yn ôl i'w dosbarth sylfaen amser llawn.

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth ychwanegol, fel y'i dangosir gan yr adborth gan ddau ddisgybl isod, sydd wedi'i gyfieithu o'r iaith gartref.

*"Rwy'n hoffi dod i'r ysgol a chael brecwast. Rwy'n dysgu gyda fy ffrindiau. Rwy'n gallu eu helpu nhw. Rwy'n dysgu siarad Saesneg a sut i edrych yn llygaid pobl pan rwy'n rhoi rhywbeth iddyn nhw. A dim ond un person sy'n siarad. Pan mae Miss yn siarad, rhaid i ni eistedd yn daclus a gwrando. Pan nad ydyn ni'n gwrando, fyddwn ni ddim yn gwybod beth i'w wneud. Bydd ein gwaith ddim yn dda."*

"*Rwy'n hoffi bod yn y dosbarth hwn yn fawr. Rydyn ni gyd yn helpu ein gilydd ac mae Miss yn helpu ni hefyd pan nad ydyn ni'n deall. Mae Mrs Y yn dysgu Saesneg i ni."*

## 'Tîm o amgylch y teulu' a gwaith amlasiantaethol

20 Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd wedi creu strategaethau i wella deilliannau trwy weithio gydag asiantaethau allanol a all gynorthwyo dysgwyr ag anghenion penodol o ran iechyd neu les.

21 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio asiantaethau allanol hefyd i gyfrannu at y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Yn yr achosion gorau prin, mae ysgolion yn cysylltu â'u hawdurdod lleol i nodi pa asiantaethau sy'n gallu gwneud y cyfraniad gorau i ABCh. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cynnwys swyddogion cyswllt yr heddlu neu weithwyr y gwasanaeth iechyd i gymryd rhan mewn rhaglenni ABCh. Mae rhai asiantaethau yn canolbwyntio ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol neu effeithiau trosedd ar y gymuned neu berthnasoedd cymdeithasol. Mae gweithwyr yn yr asiantaethau hyn yn meddu ar wybodaeth gyfoes a gallant gyfeirio at sefyllfaoedd bywyd go iawn. Pan gaiff y sesiynau hyn eu gwneud yn dda, gallant helpu disgyblion i ddelio â'r problemau y gallent eu hwynebu yn eu bywydau.

22 Mae'n her i ysgolion gydlynu a rheoli gwaith nifer fawr o bartneriaid allanol. Mae'r nifer fach o ysgolion sy'n llwyddo yn gwneud hynny pan fyddant yn cyfathrebu'n dda gyda phartneriaid. Maent yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr unigol ac yn cydlynu ymyriadau i fodloni anghenion y dysgwyr. Mae staff yn monitro ymyriadau ac yn mesur effaith gwahanol ddulliau trwy ddadansoddi data perfformiad. Mae staff hefyd yn deall ystod y cymorth y mae'r dysgwr yn ei gael, hyd yn oed pan gaiff hyn ei ddarparu y tu allan i'r ysgol, ac maent yn ceisio uno'r dulliau.

23 Menter ddiweddar sy'n helpu ysgolion i gydlynu gwaith amlasiantaethol yw 'Tîm o amgylch y teulu'. Mae model 'Tîm o amgylch y teulu' yn rhan allweddol o bolisi Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae gan bob awdurdod lleol Gynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf (2012-2017), i'w gyflwyno gyda sefydliadau partner o dan arweiniad grwpiau cyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf. Mae 'Tîm o amgylch y teulu' yn elfen benodedig o'r cynllun gweithredu. Rhaid i bob awdurdod lleol esbonio sut byddant yn cyflwyno'r prosiect, gan amlinellu llinellau atebolrwydd a disgrifio sut bydd y prosiect yn cael ei arfarnu, gan gynnwys asesu'r modd y defnyddir cyllid. Ar hyn o bryd, mae dull y 'Tîm o amgylch y teulu' mewn gwahanol gyfnod datblygu ym mhob awdurdod lleol.

24 Ym model y 'Tîm o amgylch y teulu', mae asiantaethau yn cynllunio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y cymunedau maent yn byw ynddynt. Y nod yw integreiddio cyflwyno gwasanaethau a'u gweddu i anghenion lleol ac unigol. Mae'r gronfa o fedrau yn y tîm yn golygu y gellir mynd i'r afael â phryderon iechyd, domestig a lles cymdeithasol plant a theuluoedd a gellir cymryd camau i wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad. Mae 'Tîm o amgylch y teulu' hefyd yn nodi anghenion oedolion ac yn cynnig i deuluoedd ddefnyddio adnoddau ymarferol.

25 Mewn rhai awdurdodau lleol fel Abertawe, lle mae dulliau 'Tîm o amgylch y teulu' wedi cael eu datblygu'n dda, ceir tystiolaeth gynnar o'i effaith. Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol hyn wedi nodi lefel gynyddol o angen dros y tair blynedd diwethaf. Dywedant hefyd fod y momentwm a ddarperir gan Teuluoedd yn Gyntaf wedi golygu bod mwy o asiantaethau'n cymryd rhan yn 'Tîm o amgylch y teulu'. Mae ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â dull y 'Tîm o amgylch y teulu' a'i botensial ar gyfer gwneud gweithio amlasiantaethol yn fwy effeithiol. Mae llawer o ysgolion yn sôn am ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer y dysgwyr sy'n cael cymorth trwy'r dull hwn.

26 Mae Ysgol Gyfun Coedcae yn Llanelli yn defnyddio model y 'Tîm o amgylch y teulu' ac yn cynnal cyfarfodydd wythnosol i hwyluso cyfathrebu rhwng asiantaethau. Mae staff mewnol ac allanol yn mynychu'r cyfarfodydd wythnosol, gan gynnwys cydlynydd y 'Tîm o amgylch y teulu', y pennaeth cynorthwyol, y rheolwr cymorth disgyblion, gweithiwr cymdeithasol cyswllt yr ysgol, nyrs yr ysgol, cynorthwywyr cymorth disgyblion, arweinwyr cymorth disgyblion, a gweithiwr ieuenctid yr ysgol. Mae'r tîm yn nodi anghenion disgyblion mewn ffordd gyfannol, ac yn darparu ymyrraeth briodol. Caiff cynnydd ei fonitro gan y tîm i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Er Medi 2012, mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot i ymestyn model y 'Tîm o amgylch y teulu' i'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, a dylai hyn alluogi ymyrraeth gynnar a pharhad gwell yn y cymorth a ddarperir yn ystod cyfnod pontio disgyblion i ysgolion uwchradd ac ar ôl hynny.

27 Gall 'Tîm o amgylch y teulu' fod â rhan bwysig mewn helpu teuluoedd sydd dan anfantais i oresgyn heriau a galluogi plant i gyrraedd eu llawn botensial. Pan fydd problemau lluosog na all un gwasanaeth fynd i'r afael â nhw, gall ysgolion weithio gyda theuluoedd i nodi'r rhain yn gynnar, canolbwyntio ar eu cryfderau, ac asesu eu hanghenion. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y caiff gwaith amlasiantaethol ei reoli yn Rhondda Cynon Taf. Mae partneriaeth 'Canopi'[7] yn sicrhau bod y gwasanaethau a'r asiantaethau perthnasol yn cyfarfod yn rheolaidd a'u bod yn cael gwybod yn llawn am wasanaethau ei gilydd.

**Gwaith amlasiantaethol yn Ysgol Gynradd Treorci**

**Cyd-destun yr ysgol**

Ysgol fro sy'n gwasanaethu cymunedau Rhondda uchaf yw Ysgol Gynradd Treorci.

[7] Dull o weithio amlasiantaethol yn Rhondda Cynon Taf yw Canopi. Mae partneriaid yn y cynllun yn cynnwys CBS Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Heddlu De Cymru, sefydliadau'r sector gwirfoddol, Cymunedau yn Gyntaf, Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Caiff yr ardal ei nodweddu gan lefelau uchel o ddiffyg gweithgarwch economaidd. Mae 344 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, rhwng tair ac 11 oed. Mae ychydig dros chwarter o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nododd uwch reolwyr y dylai lleihau effaith tlodi ar gyflawniad fod yn flaenoriaeth strategol i'r ysgol.

**Strategaeth**

Defnyddiodd yr ysgol ddull teulu cyfan i fynd i'r afael ag anfantais. Datblygwyd strategaeth gan uwch reolwyr a oedd yn cynnwys:

- sefydlu partneriaethau amlasiantaethol;
- rhaglen hyfforddi ar gyfer staff; a
- chynllun ar gyfer cymorth a dysgu teuluol

Rhan allweddol o'r strategaeth hon oedd defnyddio Canopi i gydlynu gweithio amlasiantaethol i gynorthwyo teuluoedd sydd dan anfantais.

**Camau gweithredu**

Penodwyd swyddog lles gan uwch reolwyr a sefydlodd ystafell i deuluoedd i ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr sydd dan anfantais. Dull yr ysgol fu helpu teuluoedd i fynd i'r afael â'u problemau tymor byr uniongyrchol fel tai, trais yn y cartref a sefydlu arferion. Ochr yn ochr â hyn, maent hefyd yn gwella medrau rhieni mewn rhianta a medrau sylfaenol er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl fel addysgwr cyntaf eu plentyn.

Mae'r ysgol yn cydlynu gwasanaethau ac ymarferwyr o amgylch y plentyn a'r teulu, a thrwy Canopi, gall gyfeirio teuluoedd at yr arbenigwyr perthnasol. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau sy'n cyflwyno hyfforddiant ar lythrennedd, rhifedd, rheolaeth ariannol, a medrau digidol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol hefyd yn datblygu hyfforddiant ac ymyriadau trwy bartneriaid amlasiantaethol sy'n ymuno â chyfarfodydd lleol Canopi.

Fe wnaeth yr ymgysylltu cychwynnol â theuluoedd trwy Ddysgu Teuluol ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Targedodd yr ysgol deuluoedd plant a oedd yn cael prydau ysgol am ddim ac a oedd yn tangyflawni.

Wedyn, dyfeisiwyd cynllun gan yr ysgol i ddatblygu rhaglen dysgu oedolion a oedd yn cynnwys hylendid bwyd, maeth, datblygiad personol, cymorth cyntaf pediatrig, medrau hanfodol (yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd) a rhaglenni rhianta ac anogaeth. Cynhaliwyd y rhain ar y cyd â phartneriaid amlasiantaethol trwy Canopi.

Mae'r ysgol wedi cynnal rhaglen Men Behaving Dadly yn llwyddiannus iawn gyda thadau plant sy'n tangyflawni. Bu'r rhaglen yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, roedd tadau a fu'n ddieithriaid yn yr ysgol yn y gorffennol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wythnosol ar ôl yr ysgol gyda'u plant. Trwy gysylltu â Canopi, rhoddwyd cyfle i deuluoedd a gwblhaodd y rhaglen fynd ar wyliau am dridiau yn llawn gweithgareddau a ariannwyd gan bartner amlasiantaethol fel cymhelliant iddynt am gymryd rhan.

Mae swyddog lles yr ysgol yn rhoi adroddiadau i uwch reolwyr bob wythnos ar gynnydd y teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni. Mae'r swyddog lles hefyd yn rhoi gwybodaeth i athrawon am unrhyw gymorth ychwanegol a gaiff y plentyn.

Mae'r ysgol wedi datblygu system i nodi angen mewn teuluoedd ac olrhain cyfranogiad. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio offeryn mesur masnachol i fonitro ymglymiad rhieni ac effaith y camau gweithredu ar ddysgwyr.

Mae uwch reolwyr yn cyfarfod bob hanner tymor gyda theuluoedd i drafod cynnydd o ganlyniad i ymgysylltu â'r ysgol ac asiantaethau partner. Mae'r ffocws ar gyfer y cyfarfodydd hyn ar farn y rhieni ynglŷn â'r effaith a gaiff hyn ar gyrhaeddiad eu plant ac ar les teuluoedd.

**Deilliannau**

Mae rhieni wedi rhoi sylwadau am ymddygiad gwell eu plant a'r berthynas well gydag athrawon, rhieni ac oedolion eraill. Mae plant teuluoedd sy'n cael eu targedu i gymryd rhan mewn gweithdai neu gyrsiau yn yr ystafell i deuluoedd yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd ac maent yn fwy hyderus.

Mae'r ysgol yn dechrau gweld effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr sydd dan anfantais yn y Cyfnod Sylfaen.

Ar gyfartaledd, mae presenoldeb wedi codi bron i chwe phwynt canran ar gyfer y plant y mae eu teuluoedd wedi ymgysylltu â'r ysgol.

Mynychodd y plant yn y dosbarth meithrin yr ystafell i deuluoedd i gynorthwyo eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu cyffredinol. Mae'r plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a dargedwyd yn y rhaglen hon wedi gwneud cynnydd da iawn. Disgwylir i bob un ohonynt gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer pob un o'r plant mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae hyn yn rhagori'n fawr ar eu deilliannau disgwyliedig wrth gychwyn yn yr ysgol.

Mae'r dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyflawniad personol a chymdeithasol. Mae hyn yn nodedig oherwydd roedd gan y dysgwyr hyn lefelau isel o fedrau personol a chymdeithasol wrth gychwyn yn yr ysgol.

Mae rhieni'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd un i un bob hanner tymor gyda'r swyddog lles, lle maent yn trafod eu taith ddysgu bersonol, eu gweithredoedd a'u dyheadau. Mae llawer mwy o rieni yn fodlon ymgysylltu â'r ysgol erbyn hyn ac maent wedi ennill cymwysterau cydnabyddedig am y tro cyntaf yn eu bywydau. Mae hyn wedi rhoi'r hyder iddynt gynorthwyo dysgu eu plant.

28 Er bod ysgolion yn croesawu dull y 'Tîm o amgylch y teulu' yn gyffredinol, nododd lleiafrif o ysgolion fod problemau â'r model. Er enghraifft, mae trosiant uchel y staff mewn rhai asiantaethau allanol yn golygu bod parhad y cymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd yn cael ei beryglu. Mae hyn yn anodd iawn i blant sy'n cael gofal a allai fod â chyswllt â nifer o weithwyr cymdeithasol yn ystod eu haddysg. Mae ysgolion ac

awdurdodau lleol hefyd yn dweud bod cyfarfodydd 'Tîm o amgylch y teulu' yn cael eu canslo ar fyr rybudd neu fod cynrychiolwyr ddim yn gallu mynychu. Mae hyn yn rhwystredig i bawb ac yn golygu bod rhaid aildrefnu cyfarfodydd, a bod yn rhaid i rieni a phartneriaid ailymgynnull yn ddiweddarach. Mae hyn yn anghyfleus i deuluoedd ac weithiau'n golygu bod rhaid aros yn hir cyn datrys materion. Dywed ysgolion hefyd nad yw staff o asiantaethau eraill yn deall cyfyngiadau amserlen ysgolion a'u bod yn trefnu cyfarfodydd yn ystod y diwrnod ysgol. Mae ysgolion yn aml yn gweld bod yn rhaid iddynt aros am amser hir i gael yr adroddiadau sy'n cynnwys rhagor o fanylion am weithredu a deilliannau. Mae hyn yn golygu y gallai'r cymorth i ddysgwyr gael ei ohirio.

**Cydlynu a rheoli gweithio mewn partneriaeth**

29 Mewn llawer o ysgolion, mae rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig neu Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys cyfrifoldeb am gynnydd dysgwyr sydd dan anfantais. Mae hyn yn canolbwyntio'r gwaith gyda dysgwyr sydd dan anfantais yn rhy gryf ar ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Er bod cyfran uchel o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid yw'r trefniant hwn yn sicrhau bod dysgwyr sydd dan anfantais o bob gallu yn cael cymorth. Yn aml, mae ymrwymiad addysgu sylweddol gan Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae'r ymrwymiad addysgu hwn, ynghyd â chyfrifoldebau eraill, yn golygu nad ydynt yn aml yn cael digon o amser i gydlynu a datblygu dulliau i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais ar draws yr ystod gallu cyfan.

30 Mae rhai ysgolion yn nodi uwch arweinydd i fod yn gyfrifol am berfformiad dysgwyr sydd dan anfantais. Mae hon yn nodwedd hollbwysig yn y nifer fach o ysgolion sy'n gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid. Mae'r uwch arweinwyr hyn yn gyfrifol am gefnogi cyflawniad yr holl ddysgwyr sydd dan anfantais, beth bynnag fo'u hanghenion a'u galluoedd.

31 Mae'r uwch arweinwyr hyn:

- yn chwilio am asiantaethau a gwasanaethau a fydd yn helpu disgyblion i gyflawni heriau;
- yn cael eu hysbysu'n dda am swyddogaethau gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill;
- yn gwybod pwy yw'r bobl allweddol ac yn cysylltu â nhw;
- yn goruchwylio cydlynu gwaith partneriaeth;
- yn rheoli rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng asiantaethau a gwasanaethau a'r ysgol;
- yn monitro cynnydd dysgwyr;
- yn cynorthwyo staff ysgol i reoli gwaith partneriaeth;
- yn cefnogi rhaglenni a mentrau unigol;
- yn adolygu gwaith gwasanaethau a'u heffaith ar ddisgyblion yn rheolaidd;
- yn cyfathrebu gydag arweinwyr gwasanaeth yn yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol ac yn fewnol;
- yn gwarchod cyfrinachedd, ond yn rhannu gwybodaeth yn unol â phrotocolau cytûn; ac
- yn cynnwys disgyblion a theuluoedd wrth ddyfeisio'r rhaglen gymorth.

32 Mae rhai ysgolion uwchradd mawr yn rhannu'r cyfrifoldebau uchod ar draws yr uwch dîm. Er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Dyffryn yn cysylltu aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyda phob asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod pob arweinydd yn canolbwyntio ar ymyrraeth asiantaeth benodol gyda set o ddisgyblion unigol.

33 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae'r rheolwr lles yn Ysgol Gynradd Alexandra wedi gweithio mewn partneriaeth i wella cyflawniad ei dysgwyr.

**Gwaith rheolwr lles**

**Cyd-destun yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Alexandra yn gwasanaethu cymuned yng nghanol Wrecsam. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dod o Ystâd Parc Caia, sef ardal sydd dan anfantais gymdeithasol sylweddol, ac mae bron i hanner y dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae nifer sylweddol o ddysgwyr sydd ag anawsterau emosiynol, problemau cymdeithasol, anawsterau teuluol, cymhelliant gwael, ymddieithrio, medrau cymdeithasol gwael, bywyd cartref anhrefnus a diffyg cymorth a gofal gan rieni.

**Strategaeth**

Nod yr ysgol yw galluogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial, er bod hyn yn aml yn annhebygol. Mae cynllunio datblygiad yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i amddifadedd trwy gynnig cwricwlwm cyfoethog, polisi drws agored ar gyfer rhieni a gwneud cymorth bugeiliol yn flaenoriaeth ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae gan yr ysgol uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am gyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais.

**Camau gweithredu**

Defnyddiodd yr ysgol ei chyllid Rhagori i wella presenoldeb trwy ariannu gweithiwr i weithio yn yr ysgol a oedd yn cysylltu â swyddog presenoldeb yr awdurdod lleol. Roedd rhaid i'r gweithiwr yn yr ysgol feddu ar y gallu i gyfathrebu'n dda gyda rhieni ac ennyn eu parch, a meddu ar fedrau i gysylltu ag asiantaethau allanol. Penderfynodd yr ysgol benodi uwch athro ar gyfer y rôl hon i adlewyrchu pwysigrwydd y cyfrifoldebau. Brîff cychwynnol yr athro hwn oedd gwella presenoldeb, ond dros gyfnod, creodd yr ysgol rôl ehangach ar gyfer yr aelod hwn o staff i gefnogi lles dysgwyr yn fwy cyffredinol.

Daeth rôl yr athro dynodedig yn rôl rheolwr lles. Caiff y swydd hon ei hariannu trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion erbyn hyn.

Mae'r rheolwr lles:

- yn gyfrifol am wella presenoldeb a phrydlondeb;
- yn rheoli ymddygiad a chymorth bugeiliol;

- yn rheoli'r cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr ac yn eu cynorthwyo yn ôl yr angen;
- yn cyfarfod â rhieni ac yn cyfeirio rhieni at y gwasanaethau cymorth perthnasol;
- yn mynychu cyfarfodydd 'Tîm o amgylch y plentyn', Plant mewn Angen, a chyfarfodydd amddiffyn plant ac yn cyfathrebu ag asiantaethau perthnasol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Gweithredu dros Blant, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), Cymorth Rhianta, a gwasanaethau seicoleg addysg; ac
- yn cynorthwyo athrawon i helpu dysgwyr sydd â phroblemau emosiynol a chymdeithasol, a chefnogi lles yr athrawon eu hunain.

Caiff rôl y rheolwr lles ei harfarnu trwy brosesau rheoli perfformiad sydd wedi'u seilio ar welliannau mewn presenoldeb, perfformiad ac agweddau.

**Deilliannau**

Mae deilliannau cadarnhaol yn cynnwys:

- perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2, sydd wedi gwella o 47% yn 2007-2008 i 79% yn 2011-2012;
- presenoldeb sydd wedi cynyddu fesul blwyddyn er 2009 a'r ganran yw 93% ar hyn o bryd;
- dysgu mwy effeithiol yn y dosbarth, gan wneud defnydd gwell o amser addysgu;
- gostyngiad yng nghyfraddau absenoldeb athrawon oherwydd salwch o ganlyniad i straen; a
- chynyddu'r amser i'r pennaeth ganolbwyntio ar wella'r ysgol.

Mae'r bwlch mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael wedi lleihau'n gyson. Yn 2009, y bwlch mewn perfformiad oedd 20 pwynt canran ond erbyn 2012, roedd y bwlch wedi gostwng i 10 pwynt canran. Mae bron pob un o'r dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da, felly erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un ohonynt yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig. Ni chafwyd unrhyw waharddiadau am bum mlynedd.

Gwelwyd deilliannau cadarnhaol hefyd wrth gefnogi medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.

- mae canlyniadau PASS[8] yn dangos y modd y mae perthynas ragorol wedi cael ei datblygu gyda phlant a rhieni;
- mae dros 98% o ganlyniadau PASS yn dangos gwerthoedd cadarnhaol;
- mae dysgwyr yn dangos hyder, hunan-barch, synnwyr o werth a hapusrwydd cynyddol yn yr ysgol;
- mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth a'u bod yn cael eu trin yn deg, a bod ganddynt berthynas well gyda'u rhieni; ac
- mae gan ddysgwyr berthynas well gydag athrawon / gweithwyr cymorth: maent yn teimlo'n ddiogel, mae ganddynt gymhelliant cynyddol, ac maent yn fwy parod i ddysgu.

[8] Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol

Mae'r ysgol yn monitro effaith strategaethau ymyrraeth a chymorth trwy adroddiadau Gweithredu dros Blant; rhaglen cymorth i fyfyrwyr ac arfarniadau'r grŵp medrau cymdeithasol; canlyniadau 'Tîm o amgylch y plentyn'; ac adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adroddiadau arfarnu hyn yn dangos bod ymyriadau gyda dysgwyr sydd dan anfantais wedi bod yn llwyddiannus.

34 Mae'r arweinwyr dynodedig gorau ar gyfer anfantais yn gwneud yn siŵr fod pob aelod o staff yn yr ysgol yn ymwybodol o'r gweithio mewn partneriaeth sy'n digwydd. Maent yn rhoi gwybod i staff am yr ymyriadau a gaiff dysgwyr unigol. Mae hyn yn helpu staff i gael dealltwriaeth well o anghenion eu dysgwyr ac yn gwella cyfathrebu am gynnydd unigolion.

35 Maent hefyd yn sicrhau bod partneriaid allanol yn ymwybodol o nodau strategol yr ysgol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais, ac maent yn rhannu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod dulliau'r ysgol yn gyson â strategaethau ymyrraeth. Yn yr ysgolion hyn, cynhelir deialogau cynhyrchiol rhwng staff yr ysgol a'u partneriaid allanol. Yn Ysgol Gynradd Tywyn, er enghraifft, mae staff allanol yn cyfnewid nodiadau gyda staff yr ysgol gan ddefnyddio llyfr nodiadau cyffredin i gofnodi gweithgareddau a chynnydd. Mae hyn yn helpu i ddarparu parhad mewn cymorth.

36 Mae'r ysgolion sy'n deall sut i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais yn gwahodd pob aelod o staff, gan gynnwys y rhai o bartneriaid allanol, i gyfarfodydd staff a digwyddiadau hyfforddi. Maent yn cynnwys partneriaid o wasanaethau ac asiantaethau arbenigol mewn digwyddiadau hyfforddi ar agweddau penodol ar gynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais, fel sut i wella defnydd dysgwyr o iaith gymdeithasol. Mewn llawer o achosion, maent yn gwahodd gweithwyr o sefydliadau allanol i gymryd rôl flaenllaw mewn hyfforddiant. Maent yn trin pawb sy'n cyfrannu at gynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais fel aelodau o staff yr ysgol.

## Cydweithio rhwng ysgolion

37 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael ei neilltuo i glystyrau o ysgolion fel bod ysgolion yn cael eu hannog i gydgyfrannu eu hadnoddau i wneud penderfyniadau mwy cost-effeithiol ynghylch gwariant. Yng Ngwynedd, mae llawer o ysgolion bach, ac mae'r cyllid sydd wedi'i gydgyfrannu wedi cael ei ddefnyddio i hyfforddi'r holl athrawon mewn clwstwr ar yr un pryd.

38 Mewn rhai clystyrau, mae cydgyfrannu adnoddau wedi helpu athrawon o ysgolion uwchradd a chynradd i ddeall problemau ei gilydd. Dywedodd rhai penaethiaid ysgolion uwchradd yn ein harolwg fod y trefniant hwn wedi codi eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar. Mae rhai ysgolion wedi cynllunio dulliau o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais ar draws sectorau trwy eu gwaith clwstwr. Mae hyn wedi helpu'r disgyblion i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd trwy eu cynorthwyo, yn aml yn eu dysgu cymdeithasol ac emosiynol, a'u llythrennedd.

39 Mewn llawer o ardaloedd sydd ag amddifadedd uchel, mae dysgwyr yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau iaith cyfyngedig. Mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno

strategaethau i helpu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i wella eu medrau iaith ac mae rhai ysgolion cynradd wedi lleihau'r bwlch mewn perfformiad mewn llythrennedd rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion nad ydynt wedi creu dulliau digon da i sicrhau parhad dilyniant medrau rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

40 Mae Ysgol Uwchradd Rhymni wedi cyflogi athro cynradd hyfforddedig i weithio gyda dysgwyr Blwyddyn 7 i helpu dysgwyr i barhau i wneud cynnydd yn eu darllen. Mae'r athro yn defnyddio'r un cynllun darllen ag ysgolion cynradd partner. Er nad yw'r dull hwn yn targedu dysgwyr sydd dan anfantais yn benodol, mae'n helpu i sicrhau parhad ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi elwa ar gynlluniau ymyrraeth yn yr ysgol gynradd.

41 Mae Ysgol Gyfun Coedcae yn rhannu dulliau o ymdrin â llythrennedd gyda'u hysgolion cynradd partner. Mae dadansoddiad yr ysgol o effaith y gwaith hwn wedi canfod bod llai o ddysgwyr yn cyrraedd ym Mlwyddyn 7 gydag oedrannau darllen islaw eu hoedran cronolegol, ac mae angen ymglymiad amlasiantaethol ar lai o ddysgwyr.

42 Mae gan Ysgol Uwchradd Dyffryn amrywiaeth eang o ysgolion cynradd partner, y mae gan rai ohonynt gyfrannau uchel o boblogaeth ethnig leiafrifol, rhai eraill sydd o ddosbarth gweithiol gwyn yn bennaf, ond mae gan y rhan fwyaf ohonynt niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. I wella gweithio mewn partneriaeth, mae aelod o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol uwchradd ar gorff llywodraethol pedair o'r saith ysgol bartner. Maent wedi canfod bod y trefniant hwn wedi galluogi'r ysgol uwchradd i nodi anghenion dysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd er mwyn iddynt allu cynllunio ymlaen llaw i gynorthwyo'r dysgwyr hyn pan fyddant yn ymuno â Blwyddyn 7.

43 Mae Ysgol Gynradd Tywyn yn rhannu cwnselwr gyda'i hysgol uwchradd bartner. Mae hyn yn galluogi athrawon i olrhain cynnydd dysgwyr unigol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, er mwyn i athrawon allu cynllunio parhad gwell yn y cymorth ar gyfer dysgwyr unigol.

44 Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae rhy ychydig o enghreifftiau o gymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) yng Nghymru sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi. Mae rhai ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, fel Ysgol Gyfun Treorci ac Ysgol Gynradd Llwynypia, wedi gweld bod sefydlu gweithgorau o athrawon ar draws clwstwr o ysgolion i ganolbwyntio ar agweddau ar dlodi wedi gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r ysgolion hyn wedi rhannu eu strategaethau ar gyfer gwella cyflawniad ac maent wedi gwella arfer ei gilydd. Mae rhai ysgolion wedi canfod bod cyfathrebu rhwng ysgolion wedi gwella yn hyn o beth.

## Arfarnu effaith

45 Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi dechrau dadansoddi data ar y deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, fframwaith arolygu Estyn, a phecynnau data Llywodraeth Cymru i gyd wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth rheolwyr am yr angen i ddatblygu eu data a'u systemau olrhain. Mae mwy o ysgolion yn monitro

cynnydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim erbyn hyn. Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth hon hefyd i arfarnu effeithiolrwydd mentrau. Bu cynnydd yn nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn defnyddio data, ac mewn lleiafrif o ysgolion, cafwyd atebolrwydd gwell ar gyfer codi safonau hefyd. Mae'r ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus wrth fynd i'r afael â thlodi:

- yn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddysgwyr;
- yn meincnodi eu cynnydd yn erbyn cynnydd mewn ysgolion eraill;
- yn defnyddio ystod o wybodaeth feintiol ac ansoddol am les a chanfyddiadau dysgwyr (fel Proffil Boxall neu PASS), gan gynnwys edrych ar batrymau fesul blwyddyn;
- yn monitro ymyriadau yn rheolaidd ac yn adolygu, yn mireinio neu'n rhoi'r gorau i strategaethau nad ydynt yn arwain at welliant i ddysgwyr; ac
- yn monitro effeithiolrwydd athrawon wrth wella deilliannau unigolion neu grwpiau o ddysgwyr.

46 Yn yr ysgolion gorau, caiff gwaith asiantaethau a gwasanaethau allanol ei fonitro'n ofalus yn erbyn gwelliannau ym mherfformiad dysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio eu systemau data i arfarnu effaith y gwaith hwn. Maent yn gwirio cynnydd a chyflawniad dysgwyr mewn safonau, lles a phresenoldeb yn rheolaidd i sicrhau bod ymyriadau a mentrau newydd yn gwneud gwahaniaeth. I ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r ysgolion hyn hefyd yn defnyddio cynlluniau addysg unigol dysgwyr i fonitro cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau ac yn ôl ymyriadau penodol. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr a'u teuluoedd yn cymryd rhan mewn arfarnu ymyriadau.

47 Mewn rhai ysgolion effeithiol, mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfrannu at reoli perfformiad partneriaid allanol. Maent yn defnyddio trefniadau rheoli clir i sicrhau bod staff o asiantaethau allanol yn gweithio i gyflawni blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn gweithredu gweithdrefnau sicrhau ansawdd fel 'teithiau cerdded dysgu' i fonitro'r effaith a gaiff partneriaid allanol ar eu dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael negeseuon cyson am amcanion allweddol yr ysgol i wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais. Mewn rhai ysgolion effeithiol, mae uwch arweinwyr yn ymyrryd lle nad yw ansawdd y cymorth allanol yn bodloni disgwyliadau gofynnol.

48 Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau ansawdd gwaith partneriaid allanol. Mewn llawer o ysgolion, ni chaiff effaith gwaith asiantaethau a gwasanaethau allanol ei harfarnu'n ddigon da ac mae'n dibynnu'n ormodol ar brosesau anffurfiol a thystiolaeth anecdotaidd. Mae gormod o ysgolion nad ydynt yn canolbwyntio ar ba ddulliau yw'r rhai mwyaf effeithiol gyda dysgwyr sydd dan anfantais. Mae hyn yn golygu nad yw eu cynllunio dilynol yn elwa ar wybod beth sy'n gweithio'n dda ac i'r gwrthwyneb.

## Y Grant Amddifadedd Disgyblion

49 Cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion i roi adnoddau ychwanegol i ysgolion i wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais. Nid yw arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn dweud bod angen i gamau gweithredu ysgol i ysgogi gwelliannau yng nghyflawniad dysgwyr difreintiedig ganolbwyntio ar y dysgwyr hyn.

50 Mewn llawer o ysgolion, mae cynlluniau ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio ar wella cyflawniad dysgwyr gallu is, ac nid yn benodol ar y rhai sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Yn yr ysgolion hyn, mae gwario'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn achosi'r un diffygion a nodwyd gan Estyn mewn perthynas â chyllid Rhagori yn y gorffennol[9][10][11].

51 Mae'r arweiniad yn awgrymu y dylai ysgolion ystyried gwario eu Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar y cyd â chynlluniau'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r arweiniad yn awgrymu y dylai ysgolion weithio gyda sefydliadau partner i wella llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Nid yw'n argymell yn eglur y dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, gwasanaethau neu asiantaethau eraill i leihau effaith tlodi ar gyflawniad dysgwyr.

52 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'u grant i gynllunio dulliau o wella llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mewn rhai cynlluniau, mae'r dulliau hyn yn mynd i'r afael â'r problemau penodol sy'n wynebu dysgwyr difreintiedig ac maent yn cynnig mentora gan staff i ddisgyblion i roi cymorth ac adnoddau iddynt wneud eu gwaith. Bydd mentoriaid yn cynnwys rhieni yn y broses ddysgu hefyd.

53 Mae ysgolion yn defnyddio eu harian grant i ariannu ystod o brosiectau gyda ffocws ar bresenoldeb, systemau olrhain data electronig a strategaethau i ddatblygu lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae mwyafrif o ysgolion wedi defnyddio eu cyllid i gyflogi staff ychwanegol hefyd. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff y cymorth hwn ei dargedu at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'n golygu bod staff yn gweithredu fel mentoriaid neu'n cysylltu â theuluoedd.

54 Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar anghenion dysgwyr sydd dan anfantais mewn lleiafrif o achosion yn unig. Er y bydd y cymorth ychwanegol hwn yn cynnwys rhai dysgwyr sydd dan anfantais, nid yw'n sicrhau bod pob un ohonynt yn elwa. Yn aml, nid yw'r dysgwyr hynny sy'n cyflawni'n eithaf da ond nid yn unol â lefel eu potensial yn cael y sylw a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

55 Mewn gormod o ysgolion, nid yw cynlluniau ar gyfer y grant wedi'u seilio ar ddeilliannau hunanarfarnu ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â chynlluniau strategol yr ysgol. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw systemau olrhain yn ddigon soffistigedig i gofnodi gwelliannau mewn safonau a lles.

56 Mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r dulliau cyffredinol sydd eu hangen i gynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais. Fodd bynnag, maent yn ansicr ynghylch pa strategaethau yn union yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae'r diffyg hwn o ran gwybodaeth benodol, yn enwedig o'i gyfuno â phrosesau arfarnu cyfyngedig, yn golygu nad yw'r ysgolion hyn yn cynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais yn y ffordd fwyaf amserol neu effeithiol.

[9] Effaith Rhagori 2008-2009: arfarniad o gyllid Rhagori ar godi lefelau perfformiad disgyblion sydd dan anfantais, Estyn, 2009
[10] Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010
[11] Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011

57 Mae rhai ysgolion wedi defnyddio'r ymchwil a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Sutton i roi strategaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar waith, fel tiwtora cymheiriaid, neu roi mwy o adborth i ddysgwyr ar eu cynnydd. Mae Ymddiriedolaeth Sutton yn defnyddio tystiolaeth ymchwil ar wella dysgu a deilliannau i helpu ysgolion i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch sut i gynorthwyo eu dysgwyr. Mae The Toolkit of Strategies to Improve Learning: Summary for Schools Spending the Pupil Premium, gan Ymddiriedolaeth Sutton, yn darparu arweiniad ar wahanol ddulliau i gynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r pecyn canllawiau yn nodi cryfderau gwahanol ddulliau o wella dysgu ac mae'n amcangyfrif costau mabwysiadu'r dulliau.

58 Mae pob awdurdod lleol wedi rhoi cyngor i ysgolion ynghylch defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ond nid yw'n ddigon penodol. Mae pob awdurdod lleol yn craffu ar gynlluniau gwariant ysgolion ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r adborth a roesant i ysgolion yn ymwneud yn fwy â dulliau cynllunio prosiect generig nag ydyw ynghylch nodi strategaethau penodol i gynorthwyo dysgwyr sydd dan anfantais yn benodol. Er enghraifft, dywed awdurdodau lleol nad yw targedau yn ddigon penodol, neu fod angen i gynlluniau nodi staff sy'n gyfrifol. Er bod y cyngor hwn yn ddefnyddiol, nid yw'n mynd yn ddigon pell i helpu'r ysgol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion unigol.

## Awdurdodau lleol a gweithio mewn partneriaeth

### Cynllunio strategol

59 Mae cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi golygu bod llawer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â thlodi ac ar ddatblygu strategaethau ar gyfer arfarnu effaith eu dulliau o leihau effaith anfantais. Fodd bynnag, cyfyngedig fu effaith y strategaethau hyn.

60 Mae creu consortia rhanbarthol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion (GGY) wedi creu mwy o gymhlethdod gan fod gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gwasanaethau cynhwysiant addysgol yn parhau i gael eu cyflwyno ar lefel awdurdod lleol. Mae disgyblion sydd dan anfantais yn fwy tebygol o gael ADY ond dylid alinio darpariaeth cymorth ychwanegol ar gyfer yr anghenion hynny â'r ymdrech fwy i wella ysgolion, sydd ynglŷn â sicrhau gwelliannau ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Mae gwahanu'r mecanweithiau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion oddi wrth y mecanweithiau ar gyfer ADY a chynhwysiant yn gwneud alinio yn anos.

61 Yn 2012, cyhoeddwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddyfeisio cynlluniau integredig sengl. Bwriad "Cydamcanu – Cydymdrechu. Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau", yw helpu llywodraeth leol a'r sector iechyd i wella eu cydweithio i wella cynllunio, gwasanaeth a chyflwyno.

62 Yng nghynlluniau'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'n parhau i fod yn anodd nodi'r modd y bwriedir i gamau gweithredu arfaethedig gael effaith ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr weithiau. Nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer addysg wedi'u cysylltu'n ddigon da ar draws dogfennau strategol allweddol, fel y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Iaith Gymraeg. Yng nghynllunio llawer o awdurdodau lleol, nid yw amcanion yn ddigon penodol, nid oes digon o dargedau mesuradwy, ac nid yw llinellau atebolrwydd yn glir.

63 Mae gweithio tuag at gynllunio integredig i symleiddio cyflwyno gwasanaethau wedi helpu i gryfhau ffocws awdurdodau lleol ar y modd y gallant ddatblygu partneriaethau i wella deilliannau dysgwyr sydd dan anfantais. Dylai fod gan bob awdurdod lleol gynlluniau gwasanaeth cydlynus ar gyfer gwasanaethau addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol erbyn hyn i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae rhai awdurdodau wedi creu cynllun integredig sy'n darparu dull cydlynus o gyflwyno gwasanaethau i sicrhau darpariaeth ddigonol ac osgoi dyblygu, er enghraifft, yn y sector gwirfoddol, Llwybrau Dysgu 14-19, a gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, nid yw cynllunio strategol yn cynnwys dadansoddi deilliannau er mwyn nodi pa mor dda y mae'r cynllun wedi cyflawni ei amcanion. Nid yw mwyafrif y cynlluniau yn cynnwys gwaelodlinau rhifiadol na thargedau clir y gellid eu defnyddio i farnu effaith y camau gweithredu.

64 Mae gan rai awdurdodau lleol, fel Abertawe, hanes sefydledig o weithio mewn

partneriaeth. Mae cynlluniau a strategaethau partneriaeth yr awdurdod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn glir. Mae'r gwaith tuag at y Cynllun Integredig Sengl, 'Un Abertawe', yn datblygu'n dda gan fod cynrychiolwyr o bartneriaid, fel y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), yn helpu i sicrhau bod blaenoriaethau sy'n bodoli eisoes yn cael eu hamlinellu'n briodol yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun sengl. Mae'r awdurdod yn cynllunio a monitro darpariaeth yn dda gan ddefnyddio deilliannau i fesur effaith a sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn cael eu dwyn i gyfrif. Mae systemau'r awdurdod yn nodi effaith gweithgareddau ar feysydd deilliannau allweddol. Trwy gynllunio gofalus, mae'r awdurdod wedi cynnal dull amlasiantaethol effeithiol o fynd i'r afael â thlodi a gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

65 Nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn cynnwys ysgolion yn ddigon da yn eu cynllunio strategol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymgynghori ag ysgolion pan fyddant yn gwneud newidiadau i'w cynlluniau. Pan gynrychiolir ysgolion ar fyrddau, fel y PPPhI, Cymunedau yn Gyntaf neu BGLlau, mae arweinwyr ysgol yn gwneud cyfraniad defnyddiol at gynllunio. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfle i fynegi barn mewn cynllunio strategol ar gyfer gwaith partneriaeth yn yr awdurdod lleol. Datblygwyd y nifer fach o gynlluniau gorau trwy ymgynghori helaeth gyda rhieni ac fe'u cynlluniwyd yng ngoleuni adborth gan deuluoedd, plant a phobl ifanc.

66 Mae lleiafrif o awdurdodau lleol wedi aildrefnu eu strwythur corfforaethol mewn ffordd sydd wedi gwella gweithio mewn partneriaeth. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar gyfathrebu, cydweithio a rhannu gwybodaeth allweddol trwy system symlach o gyfarfodydd. Ceir sianelau cliriach o reoli llinell a chyfathrebu hefyd. Mae hyn yn golygu bod partneriaid allweddol mewn mynd i'r afael â thlodi ac anfantais, fel y Tîm Troseddau Ieuenctid neu asiantaethau sy'n gweithio i atal camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, yn gallu ymateb yn gyflymach i broblemau sy'n cael eu hwynebu gan ddysgwyr unigol ac maent yn gweithio mewn ffordd fwy ataliol hefyd i gynorthwyo teuluoedd sydd dan anfantais.

67 Nododd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin fod y bartneriaeth rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn ganolog i alluogi asiantaethau a phartneriaid i gefnogi ysgolion a darparu ymyrraeth yn gyflym ac yn briodol. Ailstrwythurwyd yr awdurdod lleol fel bod plant a gwasanaethau addysg mewn un gyfarwyddiaeth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu cydlynu ar draws ysgolion. Er enghraifft, mae'r awdurdod iechyd lleol yn gweld erbyn hyn bod llai o rwystrau rhag trefnu eu gwaith mewn ysgolion. Mae'r ailstrwythuro wedi golygu bod yr awdurdod lleol a'i bartneriaid strategol wedi cyfuno blaenoriaethau i ddarparu cyfres o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sydd dan anfantais nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH), a'r rhai sy'n gadael heb gymhwyster. Mae Sir Gaerfyrddin wedi lleihau canran y disgyblion 15 mlwydd oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig o 1.4% yn 2008 i 0% yn 2012. Dros y tair blynedd ddiwethaf, lleihaodd y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Bu gostyngiad yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig mewn ysgolion ar draws yr awdurdod lleol hefyd.

68 Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol, fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, sy'n effeithiol wrth wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais yn defnyddio dull ataliol o fynd i'r afael â materion tlodi sydd hefyd yn llywio eu cynllunio strategol. Maent yn dechrau trwy gynnal dadansoddiad anghenion trylwyr o'r gymuned leol sy'n dangos natur a graddau effaith amddifadedd ar deuluoedd lleol. Mae'r sail dystiolaeth hon yn galluogi'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i lywio'r camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â materion tlodi, ac mae'n darparu gwaelodlin i fesur effaith y camau gweithredu hyn ohono. Mae'r dull hwn o fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn golygu y gall awdurdodau lleol dargedu cynlluniau ataliol ac ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â phroblemau. Mae hefyd yn galluogi gwasanaethau i ymgysylltu â theuluoedd i wella gallu rhieni i gefnogi dysgu eu plant.

69 Mae Castell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth agos â'i ysgolion i olrhain perfformiad dysgwyr sydd dan anfantais ac mae hefyd yn defnyddio gwybodaeth gan ei sefydliadau partner i nodi anghenion y teuluoedd sydd fwyaf dan anfantais yn yr ardal. Trwy fapio teuluoedd sydd dan anfantais fel hyn, gall yr awdurdod lleol rannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd dan anfantais gyda'i ysgolion. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau yn yr awdurdod ac ysgolion i gefnogi teuluoedd dysgwyr sydd dan anfantais.

**Defnyddio 'offeryn mapio teuluoedd sy'n agored i niwed' yng Nghastell-nedd Port Talbot**

**Cyd-destun**

Canran y dysgwyr rhwng pump a 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 24.5% mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o gymharu â 20.6% yn genedlaethol. Mewn ysgolion uwchradd, mae 21.8% o ddysgwyr yn yr awdurdod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 17.4% yn genedlaethol.

**Mapio anghenion**

Mae Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio offeryn olrhain masnachol i fonitro perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys eu presenoldeb, gwaharddiadau, y gwahaniaeth rhwng deilliannau bechgyn a merched a'r cynnydd a wna dysgwyr yn erbyn eu targedau cytûn. Defnyddir hwn yn dda i herio ysgolion, ac o ganlyniad, mae ysgolion yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad dysgwyr sydd dan anfantais.

Cynhaliwyd ymarfer mapio teuluoedd sy'n agored i niwed yng Nghastell-nedd Port Talbot gan y PPPhI gyda chymorth cwmni ymgynghoriaeth. Ffurfiodd yr ymarfer mapio ran o asesiad anghenion y PPPhI ar gyfer y rhaglen genedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf. Cynhaliwyd yr ymarfer ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar brosiect 'Meithrin Gallu' a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i wella dealltwriaeth o anghenion y teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed yn yr awdurdod lleol ac ymateb i'r anghenion hynny.

Trwy'r ymarfer mapio, ceisiwyd nodi'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed yn yr awdurdod lleol nad oeddent yn cael ymyrraeth gwasanaeth arbenigol na statudol. Yn yr ymarfer, defnyddiwyd offeryn wedi'i gynllunio gan ymgynghorwyr yn seiliedig ar ymchwil Think Family (o Uned Allgáu Cymdeithasol Llywodraeth y DU). Defnyddiodd yr offeryn set o ddangosyddion amddifadedd neu berygl.

Trwy'r ymarfer, darparwyd gwybodaeth gan bartneriaid i nodi eu teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r dangosyddion yn cynnwys:

- dim un rhiant yn gweithio;
- dim un rhiant yn meddu ar gymwysterau;
- tystiolaeth o drais yn y cartref;
- incwm isel; neu
- dystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau neu alcohol ac iechyd meddwl gwael rhiant.

Gwahoddwyd pob partner PPPhI y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyfrannu at yr ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion gofal plant, athrawon, swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysg, gweithwyr hawliau lles, darparwyr gwasanaethau'r sector gwirfoddol a phobl eraill.

Gwahoddwyd pob ysgol i fynychu sesiynau briffio ar yr ymarfer mapio a chawsant nifer o negeseuon e-bost yn esbonio'r broses. Gwahoddwyd yr ysgolion hynny a gymerodd ran i gysylltu â chydlynwyr y prosiect i gael cymorth a chyngor am yr ymarfer a'r ganolfan ymchwil ar unrhyw adeg. Ni waeth p'un a gymerodd ysgolion unigol ran yn yr ymarfer ai peidio, fe'u gwahoddwyd i gyflwyniad am y canfyddiadau.

Gwnaed dros 2,000 o gyflwyniadau gan yr holl bartneriaid yn ystod cyfnod yr ymarfer mapio am deuluoedd sy'n agored i niwed a oedd yn hysbys i ymarferwyr, ac fe barodd yr ymarfer am dri mis. O'r cyflwyniadau hyn, nodwyd dros 1,700 o deuluoedd. Roedd lefelau a natur y bregusrwydd i'r teuluoedd hyn yn amrywio o'r rhai y nodwyd gan weithwyr proffesiynol bod ganddynt yr holl ddangosyddion bregusrwydd, i'r teuluoedd hynny oedd â rhai o'r dangosyddion.

Paratowyd adroddiad manwl gan yr ymgynghorwyr ar sail dadansoddiad o'r cyflwyniadau. Darparodd hyn wybodaeth am fynychter bregusrwydd penodol yng Nghastell-nedd Port Talbot a mapio nifer y teuluoedd sy'n agored i niwed ar draws ardaloedd amddifadedd (ardaloedd Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf) ac yn ôl ardaloedd Rhwydwaith Cymunedol y Bwrdd Iechyd lleol. Rhannwyd yr adroddiad gyda phob un o'r partneriaid. Yn ychwanegol, cafodd pob partner a gyflwynodd wybodaeth am deuluoedd oedd yn hysbys iddynt wybodaeth yn ôl gan yr ymgynghorwyr, a nododd ble'r oedd gweithwyr proffesiynol eraill wedi cyflwyno gwybodaeth am yr un teuluoedd. Galluogodd hyn iddynt weld p'un a oedd lefel y bregusrwydd mewn unrhyw ffordd yn uwch neu'n wahanol o ran ei natur na'r hyn yr oeddent yn gyfarwydd ag ef yn sgil eu cyswllt eu hunain â'r teuluoedd.

Trefnwyd cyflwyniad canfyddiadau ar gyfer pob partner, a roddodd gyfle hefyd i drafod goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer cynllunio strategol ac ar gyfer sefydliadau, gwasanaethau ac ysgolion unigol.

Fe wnaeth yr offeryn mapio a'r broses a ddilynwyd i gwblhau'r ymarfer helpu partneriaid i fyfyrio ar ba mor dda yr oeddent yn ymateb i anghenion dysgwyr a theuluoedd unigol. Cafodd pob un o'r ysgolion a wnaeth gyflwyniadau fanylion yn ôl am y teuluoedd hynny a oedd yn hysbys iddynt, a ddangosodd y modd yr oedd asiantaethau eraill wedi asesu lefel y bregusrwydd. Anfonwyd arweiniad i'r holl asiantaethau am gamau y gallent eu cymryd os oeddent yn pryderu bod lefel y perygl

yn fwy nag a dybiwyd. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau i adolygu eu hymateb presennol neu gysylltu â phartneriaid penodol, neu gyfeirio at wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol pe bai angen.

**Deilliannau**

O ganlyniad i'r camau a gymerwyd, mae deilliannau wedi gwella. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr ysgolion cynradd wedi cynyddu.

Mae canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 wedi codi o 57% yn 2010 i 67% yn 2012.

Yn 2012, roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn y Cyfnod Sylfaen ddau bwynt canran islaw cyfartaledd Cymru.

**Defnyddio data i gynorthwyo ysgolion wrth fynd i'r afael â thlodi**

70 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu cynnydd yn nifer yr awdurdodau lleol sy'n rhannu data am ddysgwyr sydd dan anfantais gyda'u hysgolion. Fodd bynnag, mae ansawdd y wybodaeth hon yn dibynnu ar natur a chwmpas y data a gedwir gan yr awdurdod lleol.

71 Mae awdurdodau lleol yn nodi eu dysgwyr sydd fwyaf dan anfantais fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn cymharu perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn perfformiad y rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael er mwyn monitro cynnydd cymharol dysgwyr. Fodd bynnag, lleiafrif o awdurdodau yn unig sydd â thargedau penodol a mesuradwy yn eu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng y ddau grŵp a mesur cynnydd yn erbyn y targedau. Mae dadansoddi'r data hwn wedi gwella yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae llawer o awdurdodau yn deall pa ysgolion sy'n gwasanaethu dysgwyr sydd dan anfantais yn dda erbyn hyn. Mae lleiafrif o awdurdodau wedi defnyddio'r wybodaeth hon i drefnu digwyddiadau a chyfarfodydd i rannu arfer effeithiol rhwng ysgolion. Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i herio ysgolion i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais.

72 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio mesurau lles hefyd, fel Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS). Fodd bynnag, ychydig awdurdodau yn unig sy'n defnyddio ystod eang o ddata i archwilio effaith amddifadedd ar ddysgwyr, olrhain eu cynnydd, dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad a chynllunio ar gyfer gwella. Mae lleiafrif o awdurdodau yn defnyddio dull ehangach o nodi eu dysgwyr sydd dan anfantais. Er enghraifft, maent wedi astudio'r berthynas rhwng presenoldeb a hawliadau budd-daliadau, trosedd a diweithdra. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth well i awdurdodau lleol o'r materion sy'n gysylltiedig â thlodi yn eu cymunedau.

## Nodi a rhannu data gyda phartneriaid

73 Er bod llawer o awdurdodau lleol yn datblygu eu partneriaethau i wella cydweithio, nid ydynt bob amser yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd dan anfantais gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill ac mae hyn yn rhwystro cynnydd. Mae gwahanol wasanaethau yn creu eu rhestrau eu hunain o blant a phobl ifanc sydd dan anfantais. Mae'r ffaith eu bod yn defnyddio gwahanol feini prawf i gategoreiddio anfantais hefyd yn eu rhwystro rhag rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth ar y cyd. Mae hefyd yn cyfyngu hunanarfarnu ar y cyd.

74 Nid yw gwasanaethau gyda'r awdurdodau lleol yn alinio'r dangosyddion perfformiad hynny sy'n mesur pa mor dda y caiff effeithiau tlodi eu holrhain. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd mesur effaith y gwaith ar ddysgwyr sydd dan anfantais. Mae gan y sector gwirfoddol wahanol ffrydiau ariannu sy'n cynnwys gofynion gwahanol ar gyfer olrhain cynnydd. Mae hyn yn gwneud y broses o alinio dangosyddion perfformiad yn fwy cymhleth a rhannu data yn fwy problemus.

75 Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gael un gronfa ddata gynhwysfawr ar gyfer gwybodaeth am ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr. Byddai hyn o fudd i athrawon, swyddogion a gweithwyr allweddol trwy roi darlun llawn o anghenion dysgwyr unigol. Byddai hefyd yn golygu y gellir targedu ac olrhain dysgwyr yn well. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac mae angen protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth ar ei gyfer.

76 Mae awdurdod lleol Abertawe wedi datblygu'r 'Proffiliau Asesu Bregusrwydd' (PAB) i gasglu ystod o ddata am ddysgwyr unigol. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb, gwaharddiadau, anghenion addysgol arbennig, lefelau llythrennedd, a symud ysgolion, yn ogystal â nodi a yw'r dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bod Saesneg yn iaith ychwanegol iddo neu'i fod yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Defnyddir y data hwn, er enghraifft, gan Wasanaethau Pobl Ifanc i nodi anghenion penodol a gweddu anghenion i wasanaethau sydd ar gael. Mae'r gronfa ddata PAB yn galluogi swyddogion i ddadansoddi perfformiad gwasanaethau. Yn ychwanegol, mae rheolwyr yn defnyddio data PAB i arwain eu sesiynau goruchwylio gyda gweithwyr ieuenctid er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn darparu gwasanaeth dwys a theilwredig digonol i fodloni gwahanol lefelau angen. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r mecanwaith sicrhau ansawdd o fewn y gwasanaeth ar bob lefel o'r broses berfformio.

77 Mae rhai awdurdodau lleol wedi ailgynllunio eu gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad swyddogion i gynnwys cyflawniad yn erbyn mesurau perfformiad sy'n dangos effaith y ddarpariaeth ar ddysgwyr unigol, grwpiau o ddysgwyr a chymunedau. Mae hyn wedi gwneud swyddogion yn fwy atebol am waith y gwasanaethau y maent yn eu cynnig neu'n eu brocera i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Yn Sir Ddinbych, er enghraifft, defnyddir Fframwaith Rheoli Perfformiad ar y cyd yn offeryn asesu ar draws gweithgarwch partneriaeth, sy'n cysylltu camau gweithredu a deilliannau â nodau strategol yn glir. Mae hyn wedi helpu i wella cysondeb terminoleg a mesurau ar draws ystod o wasanaethau.

## Cynorthwyo ysgolion yn eu gwaith partneriaeth

78 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi trefnu hyfforddiant i gynorthwyo ysgolion wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae'r digwyddiadau, y cynadleddau a'r cyfarfodydd hyn wedi codi ymwybyddiaeth am faterion fel defnyddio data i olrhain cynnydd, gan gynnwys iechyd a lles emosiynol, a llais y dysgwr. Mae rhai awdurdodau, fel Gwynedd, wedi darparu cyrsiau i ganolbwyntio'n benodol ar strategaethau ymarferol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr difreintiedig, er enghraifft trwy ychwanegu 'Cau'r bwlch' at yr holl hyfforddiant pynciol.

79 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn darparu arweiniad cyffredinol ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais trwy eu cyngor am ddefnyddio cyllid grant. Fodd bynnag, yn gyffredinol ar draws awdurdodau lleol, nid oes digon o gyfleoedd o hyd i arweinwyr ysgol ystyried dulliau strategol o fynd i'r afael â thlodi na sut i gynllunio ac arfarnu dulliau i wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais. Yn gyffredinol, caiff yr arweiniad a ddarperir gan awdurdodau lleol ei ddefnyddio'n dda mewn ysgolion lle ceir arweinyddiaeth effeithiol yn unig, ac nid yw'n darparu digon o gymorth ar gyfer ysgolion sy'n tanberfformio.

80 Er bod awdurdodau lleol wedi rhoi cyngor cyffredinol i ysgolion ynglŷn â sut i ddefnyddio eu harian grant, ym mwyafrif yr ysgolion yn ein harolwg, ni chanolbwyntiodd y trafodaethau gyda'r awdurdod lleol am wella ysgolion ar faterion penodol o ran mynd i'r afael â thlodi ac anfantais a oedd yn briodol i gyd-destun eu hysgol na sut i gynorthwyo anghenion penodol dysgwyr sydd dan anfantais yn eu hysgol. Ychydig o ysgolion yn unig a gafodd gymorth gan eu hawdurdod lleol ynghylch sut i reoli gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ysgolion wedi cael digon o gyfleoedd i archwilio'r ffyrdd gorau o wella cyflawniad eu dysgwyr sydd dan anfantais, na'r ffyrdd mwyaf effeithiol o drefnu gwaith partneriaeth yn eu hysgol.

81 Mae llawer o awdurdodau wedi hyrwyddo gweithio clwstwr ymhlith grwpiau o ysgolion. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i wneud y defnydd gorau o arian grant a gwneud y gorau o waith asiantaeth allanol mewn ysgolion, er enghraifft wrth fynd i'r afael â materion presenoldeb neu ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn gwneud yn siŵr bod cymorth i ddysgwyr yn parhau pan fyddant yn symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

82 Mae rhai awdurdodau lleol yn cydlynu mentrau rhwng ysgolion a gwasanaethau cymorth yn dda i helpu ysgolion i weithio gyda theuluoedd sydd dan anfantais. Yn Wrecsam, lle'r oedd 18.6% o ddysgwyr rhwng pump a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2012, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi strategaeth ar waith i ddefnyddio ymgynghorwyr cymorth i rieni i gefnogi gwaith partneriaeth gyda rhieni mewn ysgolion. Yn 2010, cynhaliodd yr awdurdod raglen beilot i gyflwyno ymgynghorwyr cymorth i rieni mewn tair ysgol gynradd yn yr ardaloedd mwyaf heriol. Ar ôl cyfnod cychwynnol o ymsefydlu a hyfforddiant, dechreuodd pob un ohonynt weithio gyda rhieni y mae eu plant yn mynychu eu hysgolion priodol. Yn nodweddiadol, mae'r ymgynghorwyr cymorth i rieni yn cynnal sesiwn galw i mewn bob wythnos, yn siarad â rhieni ar y maes chwarae, yn eu gweld mewn cyfarfodydd un i un am faterion cyfrinachol, yn ymweld â'r cartref ac yn ffonio rhieni am les, ymddygiad a phresenoldeb plant. Maent yn mynychu cyfarfodydd gyda'r teulu hefyd

i ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor am rianta da. Mae gan yr ymgynghorwyr cymorth i rieni rôl allweddol mewn gwella rhannu gwybodaeth ac arfer orau rhwng gwasanaethau a'r ysgol. Maent yn cynnal cysylltiadau gyda'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yn Wrecsam a darparwyr gwasanaethau lleol eraill i sicrhau bod gwybodaeth dda am wasanaethau lleol sy'n cynorthwyo rhieni a'u teuluoedd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgorau mewnol ac ar draws sefydliadau fel y bo'n briodol i gyfnewid gwybodaeth ac arfer orau. Mae gwaith i sicrhau cyfraddau presenoldeb uwch yn ysgolion cynradd Wrecsam wedi cael effaith gadarnhaol. Mae canrannau absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig wedi disgyn yn ysgolion cynradd Wrecsam dros y tair blynedd ddiwethaf.

83 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae cysylltiadau agos rhwng ysgolion a gwasanaethau awdurdod lleol fel gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau cymorth arbenigol neu sefydliadau gwirfoddol. Mae swyddogion yn sicrhau bod cymorth da i ysgolion ddefnyddio eu harbenigedd i feithrin cysylltiadau gwell gyda rhieni. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau lleol, nid yw ffyrdd y gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i oresgyn rhwystrau rhag dysgu ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais wedi'u sefydlu'n dda.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau ag ysgolion, craffu ar ddata ac adroddiadau ar arolygiadau ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Roedd y sampl o 26 o ysgolion yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac ysgolion mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y sampl yn cynnwys 10 ysgol uwchradd ac 16 ysgol gynradd. Mae o leiaf 20% o'r dysgwyr ym mhob ysgol yn yr arolwg hwn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae'r ysgolion wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir llawer o anfantais economaidd gymdeithasol.


Dewiswyd yr ysgolion ar gyfer yr arolwg trwy ddadansoddiad o ddata perfformiad ysgolion a chraffu ar dystiolaeth arolygu. Maent yn cynrychioli ysgolion sydd ag ystod o ddeilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais.

Ymwelodd arolygwyr â chwe awdurdod lleol ledled Cymru, ac mae gan bob un o'r rhain lefelau uchel o amddifadedd.

# Atodiad 2: Data


Yn 2013, cyhoeddwyd ystadegau gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos tuedd gynyddol yng nghanran y dysgwyr rhwng pump a 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd cyn 2012. Yn 2012, disgynnodd y ganran hon ychydig. Fodd bynnag, mae cyswllt cryf yn parhau rhwng tlodi a pherfformiad addysgol.

Mae tuedd gynyddol yng nghanran y dysgwyr rhwng pump a 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd cyn 2012[12]. Yn 2012, disgynnodd y ganran hon ychydig.





[12] StatsCymru 2012

Mae'r data isod yn dangos y canrannau cymharol sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) a dangosydd y pwnc craidd (DPC) o ran dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael.





Dengys data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012 fod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i berfformio gryn dipyn yn waeth na'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad o ran y dangosydd pwnc craidd rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig yn cynyddu yn ôl pob cyfnod allweddol olynol.


Mae'r siart isod yn dangos bod y bwlch mewn canrannau yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 wedi gostwng ychydig bach dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth hwn mewn perfformiad rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael wedi parhau'n sefydlog ar 33 pwynt canran er 2010.




Mae'r siart isod yn dangos y modd y mae cyflawniad pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pwnc craidd yng Nghymru wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bwlch yn y canrannau sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi lleihau ychydig, ond mae'n parhau i fod yn eang yn barhaus.




Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 4, gwelwyd gwelliant ar gyfradd ychydig yn well na mewn blynyddoedd blaenorol ym mherfformiad yr holl ddysgwyr ar drothwy lefel 2. Fe wnaeth y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael aros yn gyson ar ryw 33 pwynt canran ar gyfer y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2012, lleihaodd y bwlch i 27 pwynt canran.




Fodd bynnag, ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, bu cynnydd o bedwar pwynt canran yn y bwlch o ran y canrannau sy'n cyflawni ar y trothwy hwn rhwng y dysgwyr hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael, o 30 pwynt canran yn 2008 i 34 pwynt canran yn 2011.



Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth canran o'r deilliant disgwyliedig ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn unol â'r hyn a bennwyd gan broffil prydau ysgol am ddim yr awdurdod lleol, 2010-2012.

| **Awdurdod lleol** | **2010** | **2011** | **2012** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 7 | 9 |
| Abertawe | 6 | 7 | 7 |
| Sir y Fflint | 1 | 1 | 3 |
| Caerdydd | 3 | 3 | 1 |
| Bro Morgannwg | 4 | 3 | 0 |
| Sir Ddinbych | -7 | 2 | 4 |
| Caerffili | 2 | 1 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | -1 | 2 |
| Casnewydd | 3 | 0 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 2 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 3 | -1 |
| Sir Benfro | -7 | -1 | 4 |
| Powys | 0 | -2 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | -2 | 0 |
| Conwy | 2 | -2 | -1 |
| Wrecsam | 2 | 0 | -3 |
| Gwynedd | -2 | -2 | -2 |
| Blaenau Gwent | -2 | -1 | -4 |
| Sir Fynwy | -5 | -7 | -2 |
| Merthyr | -2 | 1 | -9 |
| Ceredigion | -7 | -2 | -6 |
| Torfaen | -5 | -7 | -5 |

Mae'r data sydd ar gael am y tair blynedd ddiwethaf yn dangos bod dysgwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi perfformio gryn dipyn uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yn nangosydd allweddol trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.  Mae dysgwyr yn yr awdurdodau hyn wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn y dangosydd hwn dros y tair blynedd ddiwethaf hefyd.

Mewn cyferbyniad, yn Nhorfaen a Cheredigion, sef yr awdurdodau â'r perfformiad isaf ar y cyfan yn y tair blynedd ddiwethaf, mae dysgwyr wedi cyflawni ar lefel gryn dipyn yn is na lefel y meincnod disgwyliedig yn gyson.

Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae perfformiad dysgwyr wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf.  Fodd bynnag, yn 2012, mae perfformiad cyffredinol yn wael, ac mae dysgwyr mewn naw awdurdod lleol yn cyflawni islaw'r lefel ddisgwyliedig.

Mae'r data ar gyfer pump o awdurdodau lleol yn unig yn dangos gwelliant cyffredinol ym mherfformiad dysgwyr sydd dan anfantais dros y tair blynedd ddiwethaf.

## Cyfeiriadau

Arfer effeithiol wrth fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2012

Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â’r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011

Mynd i’r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010

Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith? Sefydliad Joseph Rowntree, 2007

Effaith tlodi ar brofiad plant ifanc o’r ysgol, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007

Cyrhaeddiad addysgol plant tlotach: pa mor bwysig yw agweddau ac ymddygiad? Sefydliad Joseph Rowntree, 2010

Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree, 2010

A all newid dyheadau ac agweddau effeithio ar gyrhaeddiad addysgol? Sefydliad Joseph Rowntree, 2012

Rôl agweddau, dyheadau ac ymddygiad wrth gau’r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol, Sefydliad Joseph Rowntree, 2012.

Strategaeth tlodi plant newydd i Gymru, Llywodraeth Cymru, 2011

Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru, 2012

Strategaeth Tlodi Plant i Gymru: Dangosyddion Gwaelodlin, Llywodraeth Cymru, 2013

Teuluoedd yn Gyntaf: Canllawiau’r Rhaglen, Llywodraeth Cymru, 2011

## Geirfa

| | |
|---|---|
| CAMHS | Gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed |
| Canopi | Dull o weithio amlasiantaethol yn Rhondda Cynon Taf. Mae partneriaid yn y cynllun yn cynnwys CBS Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Heddlu De Cymru, sefydliadau'r sector gwirfoddol, Cymunedau yn Gyntaf, Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. |
| DCS | Mesur cyrhaeddiad cyffredinol yw dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid i ddisgyblion gael eu hasesu ar ddeilliant disgwyliedig y Cyfnod Sylfaen neu'n uwch (h.y. deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen neu'n uwch) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg neu fedrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol i gyflawni'r DPC. |
| DPC | Y dangosydd pwnc craidd yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu grŵp oedran mewn Cymraeg a Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2, 3 a 4. |
| GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| NACH | Nid ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| NSPCC | Y Gymdeithas Genedlaethol er atal creulondeb i blant |
| PASS | Agweddau disgyblion atyn nhw eu hunain a'r ysgol. Arolwg dysgwyr a ddefnyddir i ganfod barn dysgwyr am yr ysgol. |
| PPPhI | Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ofyniad statudol yn Neddf Plant 2004. Trwy'r partneriaethau hyn, mae awdurdodau lleol yn cydweithio i wella lles plant. |
| Proffil Boxall | Mae proffil Boxall yn darparu fframwaith ar gyfer arsylwadau strwythuredig o blant yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n galluogi athrawon i asesu meysydd anhawster plant sydd dan anfantais a chynllunio ar gyfer ymyriadau ffocysedig. |
| Rhagori | Rhaglen a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais economaidd gymdeithasol a thangyflawni addysgol ymhlith disgyblion oedd Rhagori (Gwella Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg) (2006-2010). Roedd ysgolion yn gymwys i gael grant Rhagori os oedd ganddynt 50 neu fwy o ddysgwyr o oedran ysgol statudol, a bod o leiaf 20% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |

| | |
|---|---|
| TAC | Tîm o amgylch y plentyn.  Tîm amlddisgyblaethol o ymarferwyr yw TAC a sefydlwyd ar sail achos wrth achos i gynorthwyo plentyn, unigolyn ifanc neu deulu. |
| TAF | Tîm o amgylch y teulu.  Datblygiad o TAC yw TAF i roi cymorth i deuluoedd. |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith / tîm yr arolwg |
| Alec Clark AY | Tîm yr arolwg |
| Caroline Rees AEM | Tîm yr arolwg |
| Glyn Roberts AY | Tîm yr arolwg |
| Gill Sims AEM | Tîm yr arolwg |